Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

Y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth

Canllaw Gwybodaeth

(Ionawr 2009)

(H) Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, 2008. Cedwir pob hawl. Ni chewch atgynhyrchu neu drosglwyddo unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn ar unrhyw ffurf, boed yn electronig neu'n fecanyddol, gan gynnwys llungopïo, recordio neu drwy unrhyw fath o system storio neu adennill gwybodaeth heb ganiatâd y cyhoeddwr ymlaen llaw.

Cefndir y Cyngor

Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yw'r corff statudol, hunanreoleiddiol a phroffesiynol ar gyfer athrawon yng Nghymru. Mae'n ceisio codi statws addysgu trwy gynnal a hyrwyddo'r safonau uchaf o arferion proffesiynol ac ymddygiad er lles athrawon, disgyblion a'r cyhoedd.

Nod y Cyngor yw darparu llais annibynnol, cynrychioliadol ac awdurdodol ar gyfer y proffesiwn addysgu yng Nghymru ac mae'n ceisio darparu cyngor cynhwysfawr i Lywodraeth Cynulliad Cymru a sefydliadau eraill ynghylch materion addysgu.

Sefydlwyd y Cyngor ar 1af Medi 2000.

Y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a Chynllun Cyhoeddi'r Cyngor

Y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth

Derbyniodd y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth Gydsyniad Brenhinol ar 30 Tachwedd 2000, a'i bwriad yw

meithrin diwylliant o agoredrwydd o fewn llywodraeth. Mae'r Ddeddf yn sefydlu hawl mynediad at bob math o wybodaeth "a gofnodir" a gedwir gan ystod o "awdurdodau cyhoeddus" ac yn gosod rhwymedigaethau ar sefydliadau o'r fath i ddatgelu gwybodaeth, yn amodol ar rai eithriadau. Caiff y term "awdurdodau cyhoeddus" ei ddiffinio'n eang iawn, ac yn wir mae'r Cyngor yn dod o dan y gofyniad hwn.

Mae gan unigolion yr hawl eisoes i gyrchu'r wybodaeth a gedwir amdanyn nhw eu hunain ar gyfrifiadur, ac mewn rhai ffeiliau papur, o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn ymestyn yr hawliau hyn i ganiatáu mynediad at yr holl fathau o wybodaeth a gedwir ganddynt, boed yn bersonol neu'n amhersonol eu natur, yn amodol ar rai eithriadau fel y nodir yn y Ddeddf.

Cynllun Cyhoeddi – diben a nod

Yn unol â'r Ddeddf, mae gofyn i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru gyflwyno a chynnal Cynllun Cyhoeddi.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r cynllun cyhoeddi model a baratowyd ac a gymeradwywyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth.

Y Canllaw Gwybodaeth hwn

Mae'r ddogfen hon yn ganllaw cyflawn i'r wybodaeth a gyhoeddir fel mater o drefn gan y Cyngor a / neu wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd.

Mae'r canllaw hwn (y ddogfen hon) yn nodi nifer o faterion allweddol, gan gynnwys:

- y gwahanol ddosbarthiadau o wybodaeth rydym yn eu cyhoeddi neu'n bwriadu eu cyhoeddi;
- sut rydym yn bwriadu cyhoeddi gwybodaeth o fewn pob dosbarth;
- trefniadau'r Cyngor ar gyfer codi tâl mewn perthynas â'i ddosbarthiadau gwybodaeth;
- safonau gwasanaeth y Cyngor mewn perthynas ag ymateb i geisiadau am wybodaeth a'i fecanweithiau i unigolyn gyflwyno apêl pan na fydd yn fodlon.

Cyhoeddir y canllaw ar wefan y Cyngor a chaiff ei farchnata'n helaeth i sicrhau bod y rheiny â diddordeb mewn cael gwybodaeth gan y Cyngor yn ymwybodol o Gynllun Cyhoeddi Rhyddid Gwybodaeth y Cyngor a'r canllaw hwn.

Y wybodaeth sydd ar gael gan y Cyngor

Dosbarthiadau gwybodaeth

Mae gwybodaeth y Cyngor wedi'i rhannu'n ddosbarthiadau eang fel y nodir yn y Cynllun Cyhoeddi Model a ddatblygwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Fodd bynnag, i gynorthwyo'r darllenwr, darperir y manylion canlynol hefyd:

- disgrifiad o bob dosbarth gwybodaeth;
- enghreifftiau o'r math o wybodaeth sydd ar gael ym mhob dosbarth;
- sut caiff yr wybodaeth ym mhob dosbarth ei chyhoeddi gan y Cyngor;
- manylion unrhyw eithriadau, y darperir ar eu cyfer o dan y Ddeddf.

Mae manylion llawn y dosbarthiadau gwybodaeth yn Atodiad A.

Eithriadau o dan y Ddeddf

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn nodi cyfres o eithriadau i warchod gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth arall lle gallai datgelu'r wybodaeth honno ragfarnu buddiannau'r Wladwriaeth neu drydydd partïon.

Mae Cynllun Cyhoeddi'r Cyngor yn ymdrechu i sicrhau bod cymaint o wybodaeth ar gael ag sy'n gyfreithiol bosibl. Fodd bynnag, mae gofyn i'r Cyngor gadw ystod o wybodaeth bersonol, yn arbennig, yn ymwneud ag athrawon unigol ar ei Gofrestr ac yn rhan o'i gyfrifoldebau Safonau Proffesiynol. Cyfyngir mynediad at yr wybodaeth hon i'r cyhoedd o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 a rhai o Reoliadau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Darperir manylion yn Atodiad A.

Sut bydd y Cyngor yn darparu gwybodaeth

Bydd y Cyngor yn ceisio darparu gwybodaeth mewn nifer o ffyrdd, er mwyn darparu cymaint o hyblygrwydd mynediad i geiswyr unigol ag sy'n bosibl. Ni fydd gwybodaeth ar gael o reidrwydd ym mhob un o'r ffyrdd, ac anogir ceiswyr i gyfeirio at y dosbarthiadau unigol am fanylion.

Sut i gael gwybodaeth a gwmpesir gan y cynllun ac ymatebion y Cyngor

<u>Gwybodaeth sydd ar gael fel mater o drefn</u>

Mae Atodiad A yn nodi sut caiff yr wybodaeth ym mhob dosbarth ei darparu fel mater o drefn gan y Cyngor. Yn nodweddiadol, ar wefan CyngACC y bydd hyn neu ar ffurf copi caled / electronig fel arfer.

<u>Gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno ceisiadau</u>

Os hoffech dderbyn gwybodaeth gan y Cyngor, p'un a yw'n cael ei chwmpasu gan y cynllun neu beidio, ac nad ydych yn dewis cyrchu'r wybodaeth hon drwy'r wefan, yna dylech gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion a nodir yn y cynllun hwn.

Wrth ofyn am wybodaeth, dylech gynnwys y manylion canlynol er mwyn cynorthwyo'r Cyngor:

- eich enw a'ch cyfeiriad;
- yr wybodaeth neu'r dogfennau yr hoffech gael mynediad ati/atynt, gan ddarparu cymaint o fanylion â phosibl;
- drwy pa gyfrwng yr hoffech i'r wybodaeth gael ei hanfon atoch, er enghraifft, drwy'r post, ffacs neu e-bost.

Safonau gwasanaeth / amser a gymerir i ymateb i geisiadau

Pan ddaw cais am gopi caled neu gopi electronig o ddogfen a gwmpesir gan y cynllun hwn, bydd y Cyngor yn ymateb, naill ai dros y ffôn, drwy lythyr, ffacs neu e-bost o fewn 20 diwrnod gwaith o'i dderbyn. Mae gan y Cyngor gynllun iaith Gymraeg, ac felly, pan ddaw ceisiadau ysgrifenedig drwy gyfrwng y Gymraeg, darperir ymatebion yn Gymraeg hefyd.

Yn unol â'r Ddeddf, bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r canlynol:

- hawl yr unigolyn i gael gwybod a yw'r wybodaeth yn bodoli;
- yr hawl i dderbyn yr wybodaeth, yn amodol ar rai eithriadau.

Pan na fydd yn bosibl darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, oherwydd deddfwriaeth, bydd y Cyngor yn hysbysu'r unigolyn ac yn esbonio'r rhesymau pam.

Mae'r Cyngor hefyd yn ymrwymedig i ddarparu cyngor a chymorth i unrhyw un sy'n ceisio cael hyd i wybodaeth ac mae'n barod i drafod neu egluro materion fel sy'n briodol. Caiff unrhyw geisiadau eu cofnodi ac mae croeso i unrhyw geisydd wirio cynnydd ei gais ar unrhyw adeg.

Polisi'r Cyngor mewn perthynas â chodi tâl

Yn gyffredinol, bydd y Cyngor yn darparu gwybodaeth am ddim, fodd bynnag, os bydd angen gwneud llawer iawn o waith, yna gellid codi tâl ar geisydd. Er enghraifft, gwybodaeth ystadegol grynodol na chaiff ei chynhyrchu fel mater o drefn ac sy'n cymryd dros ddiwrnod gwaith i'w pharatoi. Os penderfynir codi tâl, caiff y sawl sy'n gofyn am yr wybodaeth ei hysbysu am y tâl cyn i'r Cyngor baratoi'r wybodaeth.

Ni chodir unrhyw dâl pan fyddwn yn gwrthod cais am wybodaeth. Ni chodir tâl ychwaith am apêl yn erbyn ein penderfyniad i wrthod cyflenwi'r wybodaeth y gofynnwyd amdani neu pan fyddwch yn cyflwyno apêl yn erbyn y taliadau y byddem yn eu codi arnoch.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i godi tâl am gyhoeddiadau copi caled mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft, pan fydd stociau presennol wedi dod i ben.

Proses cwynion ac apeliadau'r Cyngor

Os nad ydych yn fodlon ar y ffordd mae'r Cyngor wedi ymdrin â'ch cais mewn unrhyw ffordd neu'r rhesymau a roesom dros beidio â darparu'r wybodaeth y gofynnoch amdani, cewch ddefnyddio proses cwynion ac apeliadau'r Cyngor.

Os nad yw'r Cyngor yn cyflenwi'r holl wybodaeth neu ran o'r wybodaeth y gofynnoch amdani, byddwn yn ysgrifennu atoch yn esbonio'r rhesymau. Os nad ydych yn fodlon, cewch apelio i'r Cyngor i adolygu ei benderfyniad.

Fel sefydliad bach, nid yw'n fwriad gan y Cyngor sefydlu panel apeliadau, fodd bynnag caiff pob apêl ei hystyried yn uniongyrchol gan Brif Weithredwr y Cyngor. Ni fydd y Prif Weithredwr wedi cael unrhyw gysylltiad â'r penderfyniad gwreiddiol mewn perthynas â rhyddhau'r wybodaeth, ac felly, bydd y mecanwaith apelio'n gwbl annibynnol.

Os hoffech apelio neu gyflwyno cwyn, dylech ysgrifennu at y Prif Weithredwr, gan ddefnyddio'r manylion a nodir yn y cynllun hwn. Byddwch yn derbyn cydnabyddiaeth i'ch llythyr apêl o fewn pum diwrnod gwaith ac ymdrinnir ag ef o fewn chwe wythnos waith, a chewch fanylion llawn am ganlyniad yr adolygiad.

Os nad ydych yn fodlon yn dilyn apêl i'r Cyngor, cewch ofyn am adolygiad annibynnol gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Dylid cyflwyno ceisiadau am adolygiad gan y Comisiynydd Gwybodaeth yn uniongyrchol i:

The Information Commissioner
Wycliffe House
Walter Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 700
Ffacs: 01625 545 510

Os yw'r ceisydd yn dal yn anfodlon, yna gellir cyflwyno cwynion drwy Aelod Seneddol i'r Ombwdsmon. Caiff cwynion eu hymchwilio yn ôl disgresiwn yr Ombwdsmon yn unol â darpariaethau Deddf 1967.

Adborth ac adolygu parhaus

Mae'r Cyngor o'r farn ei bod yn bwysig bod y cynllun hwn yn ateb anghenion y cyhoedd ac mae'n ymrwymo i sicrhau bod ei Gynllun Cyhoeddi'n cael ei adolygu'n barhaus.

Rydym yn croesawu awgrymiadau am ddosbarthiadau gwybodaeth ychwanegol y gellid eu cynnwys. Rydym hefyd yn croesawu awgrymiadau ynghylch sut gellid gwella'r cyhoeddiadau eu hunain. Caiff unrhyw gwestiynau neu sylwadau eu cyfeirio at gydlynydd y cynllun.

Bydd y Cyngor yn adolygu manylion y cynllun hwn yn flynyddol ac yn ailgyhoeddi'r cynllun fel sy'n briodol. Yn rhan o'r adolygiad hwn, bydd y Cyngor yn monitro nifer y ceisiadau am wybodaeth nad yw'n cael ei chwmpasu gan y cynllun ac yn ceisio cynnwys gwybodaeth o'r fath yn y cynllun, os nad yw wedi'i heithrio.

Ystyrir bod yr ymrwymiad hwn i adolygu cynllun y Cyngor yn barhaus yn arbennig o bwysig, o ystyried bod y Cyngor yn sefydliad cymharol newydd.

Caiff y Comisiynydd Gwybodaeth ei hysbysu os caiff y cynllun ei newid mewn unrhyw ffordd.

Cysylltiadau

<u>Pwy dylech gysylltu ag ef/hi</u>

Cyfrifoldeb	Pwy dylech gysylltu ag ef/hi
Ceisiadau am wybodaeth a chofnodi cais	Rheolwr y Swyddfa
Uwch reolwr yn gyfrifol am y cynllun (cydlynydd y cynllun)	Dirprwy Brif Weithredwr (Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon)
Cwynion ac apeliadau	Y Prif Weithredwr

<u>Manylion cyswllt</u>

Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru
4ydd Llawr
Tŷ Southgate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW
Ffôn: 029 2055 0350
Ffacs: 029 2055 0360
E-bost: information@gtcw.org.uk
Gwefan: www.gtcw.org.uk

ATODIAD

Dosbarthiadau gwybodaeth

Dosbarth 1 – Pwy ydym ni a'r hyn a wnawn ni

Disgrifiad	Mae'r dosbarth gwybodaeth hwn yn ymwneud â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru a'r ffordd mae'n gweithredu
Enghreifftiau	• Gwybodaeth am y Cyngor a'i sail ddeddfwriaethol • Y system ar gyfer ethol ac enwebu aelodau i'r Cyngor, Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Cyngor * • Rheolau sefydlog * • Aelodau'r Cyngor a'i Bwyllgorau * • Cynllun Etholiadau'r Cyngor * • Cod ymddygiad aelodau ac arfer gorau * • Cofrestr buddiannau aelodau • Agendâu a Chofnodion cyfarfodydd y Cyngor * • Strwythur staffio * • Manylion cyswllt
Hygyrchedd / eithriadau	Ar gael yn llawn
Sut caiff gwybodaeth ei chyhoeddi	• Ar gais ar ffurf copi caled neu'n electronig gan y Cyngor • Mae rhai dogfennau ar gael ar wefan y Cyngor yn www.gtcw.org.uk, gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd y Cyngor a manylion aelodau'r Cyngor. Cynhelir etholiadau i ethol aelodau sy'n athrawon i'r Cyngor bob pedair blynedd ac yn unol â hynny caiff dogfennaeth yn ymwneud â'r etholiad ei harddangos ar y wefan ar yr adeg briodol
Iaith	• Saesneg, ar wahân i'r rheiny sydd wedi'u marcio (*), a fydd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg

Dosbarth 2 – Yr hyn a wariwn a'r ffordd rydym yn ei wario

Disgrifiad	Mae'r dosbarth hwn yn ymwneud â gwybodaeth ariannol allweddol a gweithdrefnau ariannol y Cyngor
Enghreifftiau	• Datganiadau ariannol blynyddol * • Atodlen contractau a ddyfarnwyd (dros £1000) • Cofrestr Asedau • Gweithdrefnau ariannol • Gweithdrefnau caffael • Strwythur cyflogau a graddau
Hygyrchedd / eithriadau	Ar gael yn llawn
Sut caiff yr wybodaeth hon ei chyhoeddi	• Ar gais ar ffurf copi caled neu'n electronig gan y Cyngor • Mae rhai dogfennau ar gael ar wefan y Cyngor yn www.gtcw.org.uk, gan gynnwys datganiadau ariannol Blynyddol sy'n rhan o'r Adroddiad Blynyddol
Iaith	• Saesneg, ar wahân i'r rheiny sydd wedi'u marcio (*), a fydd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg

Dosbarth 3 – Ein blaenoriaethau a'n cynnydd yn eu herbyn

Disgrifiad	Mae'r dosbarth gwybodaeth hwn yn ymwneud â phrosesau cynllunio strategol y Cyngor
Enghreifftiau	• Cynlluniau Corfforaethol • Cynlluniau Gweithredol • Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon • Safonau gwasanaeth
Hygyrchedd / eithriadau	Ar gael yn llawn
Sut caiff yr wybodaeth hon ei chyhoeddi	• Ar gais ar ffurf copi caled neu'n electronig gan y Cyngor • Ar wefan y Cyngor www.gtcw.org.uk
Iaith	• Cymraeg a Saesneg

Dosbarth 4 – Sut rydym yn gwneud penderfyniadau

Disgrifiad	Mae'r dosbarth gwybodaeth hwn yn ymwneud â phrosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor a chofnodion penderfyniadau
Enghreifftiau	• Cofnodion cyfarfodydd y Cyngor • Ymgynghoriadau'r Cyngor • Ymatebion i ymgynghoriadau a gynhelir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac eraill • Dogfennau cyngor polisi a ddatblygir gan y Cyngor ar ran y proffesiwn addysgu • Crynodeb Ystadegau Blynyddol
Hygyrchedd / eithriadau	Ar gael yn llawn
Sut caiff yr wybodaeth hon ei chyhoeddi	• Ar gais ar ffurf copi caled neu'n electronig gan y Cyngor • Ar wefan y Cyngor yn www.gtcw.org.uk
Iaith	• Cymraeg a Saesneg

Dosbarth 5 – Ein polisïau a'n gweithdrefnau

Disgrifiad	Mae'r dosbarth gwybodaeth hwn yn ymwneud â gweithdrefnau mewnol allweddol a fabwysiadwyd gan y Cyngor mewn perthynas â darparu ei wasanaeth a bodloni ei gyfrifoldebau
Enghreifftiau	• Y Polisi Cyfle Cyfartal * • Polisi'r Iaith Gymraeg * • Telerau ac amodau cyflogaeth • Recriwtio a dethol • Safonau gwasanaeth * • Polisi Rheoli Cofnodion * • Buddsoddwyr mewn Pobl • Polisïau caffael a chyflenwyr • Iechyd a Diogelwch • Canllaw Gwybodaeth y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth *
Hygyrchedd / eithriadau	Ar gael yn llawn
Sut caiff yr wybodaeth hon ei chyhoeddi	• Ar gais ar ffurf copi caled neu'n electronig gan y Cyngor • Bydd rhai dogfennau ar gael ar wefan y Cyngor yn www.gtcw.org.uk
Iaith	• Saesneg, ar wahân i'r rheiny sydd wedi'u marcio (*), a fydd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg

Dosbarth 6 - Rhestrau a Chofrestrau

Disgrifiad	Mae'r dosbarth gwybodaeth hwn yn ymwneud â rhestrau a chofrestrau a gedwir gan y Cyngor
Enghreifftiau	• Cofrestr Athrawon Cymwys Cymru * • Y Gofrestr Asedau
Hygyrchedd / eithriadau	Mae Deddf Diogelu Data 1998 a pheth is-ddeddfwriaeth fel Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) 2000 (fel y'i diwygiwyd), yn pennu'r wybodaeth y gall y Cyngor ei darparu o Gofrestr Athrawon Cymwys Cymru Mae eithriadau'n berthnasol o dan y dosbarth gwybodaeth hwn. Caiff athrawon unigol fynediad llawn at wybodaeth amdanyn nhw eu hunain ar y Gofrestr Athrawon Cymwys. Caiff cyflogwyr dderbyn is-set o'r wybodaeth hon. Yr unig wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd yw gwybodaeth ynghylch a yw athro wedi'i gofrestru ai peidio
Sut caiff yr wybodaeth hon ei chyhoeddi	• Ar gais ar ffurf copi caled neu'n electronig gan y Cyngor • Bydd rhywfaint o wybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor yn www.gtcw.org.uk, er enghraifft, caiff y cyhoedd wirio a yw athro wedi'i gofrestru neu beidio drwy'r wefan
Iaith	• Saesneg, ar wahân i'r rheiny sydd wedi'u marcio (*), a fydd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg

Dosbarth 7 – Y gwasanaethau a gynigiwn

Disgrifiad	Mae'r dosbarth gwybodaeth hwn yn ymwneud â gwaith y Cyngor a'r gwasanaethau mae'n eu darparu
Enghreifftiau	• Pecynnau cais i gofrestru gyda'r Cyngor ac arweiniad atodol • Gweithdrefnau i gyflogwyr gyrchu gwybodaeth ar y Gofrestr Athrawon Cymwys • Dogfen y Cyngor: Addasrwydd i fod yn Athro Cofrestredig – Gweithdrefnau a Rheolau • Gweithdrefnau a Rheolau Disgyblu'r Cyngor • Hysbysiadau am wrandawiadau safonau proffesiynol sy'n cael eu cynnal • Cyhoeddi gorchmynion disgyblu yn dilyn gwrandawiadau disgyblu a manylion athrawon y tybir eu bod yn anaddas i gofrestru yn dilyn gwrandawiadau addasrwydd • Datganiad Gwerthoedd ac Arfer Proffesiynol y Cyngor a'r daflen ategol *Proffesiynoldeb ar Waith* • Arweiniad a Gweithdrefnau'r Cyngor ar gyfer Gwrando ar Apeliadau Sefydlu • Taflenni gwybodaeth yn ymwneud â gwaith safonau proffesiynol y Cyngor • Llyfrynnau gwybodaeth a ffurflenni cais am gyllid datblygiad proffesiynol • Trefniadau i athrawon/ysgolion gyrchu Cyllid ar gyfer Sefydlu a DPC • Cyfnodolyn y Cyngor *Addysgu Cymru* • Gwybodaeth am gyfarfodydd y Cyngor, digwyddiadau ymgynghori • Datganiadau i'r wasg • Deunydd hyrwyddo • Taflenni gwybodaeth gyffredinol
Hygyrchedd / eithriadau	Mae Deddf Diogelu Data 1998 a pheth is-ddeddfwriaeth fel Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) 2000 (fel y'i diwygiwyd), yn pennu'r wybodaeth y gall y Cyngor ei darparu. Mae eithriadau o dan y dosbarth gwybodaeth hwn yn cynnwys y gorchymyn na ellir darparu papurau achosion yn ymwneud ag achosion safonau proffesiynol unigol i'r cyhoedd

Sut caiff yr wybodaeth hon ei chyhoeddi	• Ar gais ar ffurf copi caled neu'n electronig gan y Cyngor • Ar wefan y Cyngor www.gtcw.org.uk
Iaith	• Cymraeg a Saesneg